Newyddlen y Rhaglen Moderneiddio Addysg - Rhagfyr 2010

Prosiect Ysgol Bryn Collen / Gwernant

Mae'r gwaith o fuddsoddi £700,000 i ddatblygu Ysgol Bryn Collen ac Ysgol y Gwernant, sy'n rhannu'r un safle yn Llangollen, newydd ddechrau. Bydd yn cynnwys estyniadau a gwaith uwchraddio, a'r ysgolion hyn fydd y rhai cyntaf yn Sir Ddinbych i'w gwresogi trwy gyfrwng pwmp sy'n defnyddio gwres o'r ddaear.

Bydd yr arian yn ymdrin â nifer o faterion sydd wedi codi yn sgîl y ddwy ysgol yn rhannu'r un safle. Bydd mynedfa newydd, cyntedd, derbynfa, swyddfa'r pennaeth ac ystafell athrawon a dwy ystafell ddosbarth newydd yn cael eu creu ar gyfer Ysgol y Gwernant. Bydd ystafell ddosbarth yn Ysgol Bryn Collen yn cael ei hailwampio, ynghyd â gwelliannau i'r brif fynedfa ac estyniad i'r ystafell athrawon. Bydd y dosbarth meithrin a derbyn yn yr adeilad presennol yn cael eu huwchraddio a bydd toiledau newydd hefyd.

Bydd y gwaith hwn yn caniatáu cael gwared o dri chaban o'r safle ac yn galluogi'r clwb tu allan i oriau ysgol, sy'n defnyddio caban ar hyn o bryd, gael ystafell barhaol yn yr adeilad.

Dechreuodd y gwaith ar 22 Tachwedd 2010 a disgwylir ei orffen ym mis Awst 2011.



Llun artist o Ysgol Bryn Collen ac Ysgol y Gwernant ar eu newydd wedd

Adolygiad Ardal Edeyrnion – Ymgynghori Dechreuol

Dechreuodd yr awdurdod y broses o ymgynghori dechreuol ynghylch rhesymoli nifer yr ysgolion cynradd yn ardal Edeyrnion ar 8 Tachwedd 2010. Mae saith ysgol yn yr ardal ac mae nifer o faterion y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw, yn cynnwys nifer sylweddol o leoedd dros ben. Daw'r ymgynghoriad dechreuol i ben ar 18 Chwefror 2011 ac mae'n cynnwys cyfarfodydd ymgynghori â'r staff, y rhieni a'r gymuned a chynnal nifer o weithdai.

Astudiaethau Dichonoldeb – Ysgol Uwchradd y Rhyl ac Ysgol Glan Clwyd

Derbyniodd y Cyngor gyllid gan Lywodraeth y Cynulliad i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar ehangu ac ailwampio Ysgol Glan Clwyd ac adeiladu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd y Rhyl. Mae'r astudiaethau dichonoldeb wedi'u cwblhau yn awr, ond mae camau nesaf y ddau ddatblygiad yn ddibynnol ar dderbyn cyllid gan Lywodraeth y Cynulliad.

Mae'r ddau brosiect ym Mand A cais Rhaglen Amlinellol Strategol Sir Ddinbych ar gyfer rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain. Cyflwynir y ddogfen ar 10 Rhagfyr 2010.



Braslun o sut allai Ysgol Glan Clwyd edrych yn dilyn estyniad i ac ailwampio'r ysgol

Ysgol Dinas Brân – Cyfleusterau ciniawa

Mae'r bwyty a'r prosiectau uwchraddio yn Ysgol Dinas Brân wedi'u cwblhau ac mae'r ardaloedd newydd yn cael eu defnyddio i'r eithaf gan yr ysgol.

Adolygiad Ardal Prestayn

Cwblhawyd yr adolygiad o ddarpariaeth cynradd yn ardal Prestatyn yn ddiweddar, a chyhoeddwyd dau hysbysiad statudol ynghylch dau gynnig ar 10 Tachwedd 2010.

- Cyfuno Ysgol Fabanod ac Ysgol Iau Bodnant gan ddefnyddio safleoedd presennol y ddwy ysgol
- Estyniad i Ysgol y Llys

Cyllid Cyfran 3

Llwyddodd Cyngor Sir Ddinbych i sicrhau £3m o gyllid gan Lywodraeth y Cynulliad a fydd yn ein galluogi i fuddsoddi £4.2m yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yng ngogledd y sir. Defnyddir y cyllid hwn i roi estyniad ar Ysgol y Llys, Prestatyn, yn amodol ar ymgynghori a chymeradwyaeth statudol. Bydd y cyllid hefyd yn galluogi'r Cyngor i fwrw ymlaen â gwaith ailfodelu yn Ysgol Twm o'r Nant, Dinbych ac Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl.

Ysgol Dyffryn Iaí

Mae trafodaethau'n cael eu cynnal â'r Corff Llywodraethol a fyddai'n gweld yr ysgol yn symud o ddwy safle ar wahân yn Llandegla a Bryneglwys i un safle. Byddai'r prosiect yn cael ei gyllido o'r arbedion a fyddai'n deillio o gael un safle.

Am fwy o wybodaeth ewch i:

www.sirddinbych.gov.uk/moderneiddioaddysg